

Manyleb y swydd a'r person

Teitl y swydd:	Uwch-gynorthwydd Seneddol Jonathan Edwards AS ac Uwch-gynghorydd i Adam Price AC
Ystod cyflog: (pro rata)	£33,144 - £40,486 <i>(Graddfa 5 pwynt. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn penodi uwchlaw pwynt 1.)</i>
Oriau gwaith:	37.5awr
Natur y penodiad:	Parhaol
Lleoliad:	Swyddfa'r Etholaeth, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin
Diben y swydd	
<p>Cefnogi gwaith yr aelodau etholedig yn eu swyddfa etholaethol; gan ddarparu cyswllt rhwng y tîm staff yn yr etholaeth, y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Arwain ar waith cyfathrebu lleol a chynghori'r Aelodau ar faterion lleol a chenedlaethol er mwyn llywio a llunio eu blaenoriaethau gwaith.</p>	
Prif Ddyletswyddau	
<ol style="list-style-type: none"> 1. Canfod materion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n berthnasol i fusnes y Cynulliad, a briffio'r Aelodau yn unol â hynny; 2. Cyfrannu at y broses o feddwl am bolisiâu a'u cynllunio, gan gynnwys materion sy'n deillio o waith achos yr Aelodau neu unrhyw weithgarwch arall yn yr etholaeth; 3. Cynghori a chefnogi tîm staff yr etholaeth, yn darparu arweinyddiaeth dydd i ddydd ar flaenoriaethau gwaith; 4. Datblygu strategaeth er mwyn i'r Aelodau ymdrin â materion etholaethol sy'n arbennig o bwysig ar lefel leol neu genedlaethol; 5. Cysylltu â grwpiau diddordeb allanol, gan gynnwys o fewn etholaeth yr Aelodau, i gynorthwyo cyfraniad yr Aelodau at fusnes y Senedd a Chynulliad; 6. Darparu cymorth strategol gyda chyfathrebu a materion cyhoeddus, ac yn arwain gwaith cyfathrebu gyda'r gwasg lleol; 7. Paratoi a chyflwyno deunydd o fewn terfynau amser tyn i gynorthwyo'r Aelodau gyda busnes ffurfiol y Senedd a Chynulliad; 8. Cysylltu â grwpiau diddordeb allanol, gan gynnwys o fewn etholaeth yr Aelodau, i gynorthwyo cyfraniad yr Aelodau at fusnes y Cynulliad a Senedd. 	

9. Ymgymryd â thasgau ymchwil cymhleth a gwerthuso a dehongli'r canlyniadau;
10. Delio gydag ymholiadau a chwynion cymhleth ar ran yr Aelodau, gan gynnwys drafftio gohebiaeth;
11. Rhoi cyngor arbenigol fel arbenigwr mewn maes penodol;
12. Rhoi cyngor ar faterion polisi, cyllid a deddfwriaeth gerbron y Senedd/Cynulliad, ac unrhyw agwedd arall ar fusnes y Senedd/Cynulliad;

Manyleb y Person (cyfeiriwch at y meini prawf 'hanfodol' isod wrth lenwi'r rhan 'Gwybodaeth i gefnogi eich cais' yn y ffurflen gais.

Gwybodaeth a Phrofiad Hanfodol

- Profiad o weithio'n effeithiol mewn amgylchedd gwleidyddol, gan gynnwys datrys materion cymhleth gyda synnwyr cyffredin a doethineb;
- Cyfrifoldeb am reoli tîm aml-ddisgybledig o staff sydd â hanes profedig o sicrhau canlyniadau;
- Gwybodaeth arbenigol mewn maes perthnasol, a phrofiad o ddatblygu polisiau a strategaethau o fewn y maes;
- Dealltwriaeth o frwydro yn erbyn gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal, ac ymrwymiad i'r rheini ac i Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan.

Cymwysterau Hanfodol

- Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol.
- Cymhwyster NVQ lefel 4 neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol

Sgiliau ac ymddygiadau hanfodol

- Barn a meddwl clir o ran dyrannu adnoddau ac ymateb i alwadau sy'n cystadlu â'i gilydd, a'r gallu i wneud penderfyniadau doeth mewn amgylchedd gwleidyddol sensitif sy'n newid yn gyflym;
- Sgiliau cyfathrebu, sensitifrwydd a'r bersonoliaeth i ennyn ymddiriedaeth Aelodau ac uwch-swyddogion eraill;
- Sgiliau dadansoddi ac ymchwil ar lefel uchel i ddeall a beirniadu polisi cymhleth a deunydd deddfwriaethol;
- Sgiliau drafftio a chyflwyno rhagorol i gyflwyno materion cymhleth ac opsiynau polisi yn glir, yn gryno ac yn gywir, ar lafar ac yn ysgrifenedig;
- Lefel uchel o ymwybyddiaeth wleidyddol a'r gallu i deilwra cynnyrch i anghenion a blaenoriaethau'r Aelod;
- Dealltwriaeth o waith y Cynulliad Cenedlaethol ac Aelodau'r Cynulliad;
- Y gallu i weithio ar y cyd mewn tîm bach.

Meini prawf dymunol

- Dealltwriaeth o faterion cyfoes a phynciau sy'n berthnasol i Gymru a'r ardal leol, a diddordeb yn system wleidyddol Cymru.
- Y gallu i weithio yn Gymraeg a Saesneg
- Yn arddel nodau a gwerthoedd y Blaid.
- Profiad blaenorol o weithio i AC/AS/ASE

Gwybodaeth Ychwanegol

Nodwch y bydd y penodiad yn amodol ar dystlythyrau a gwiriad diogelwch.

**Os bydd yr Aelodau yn ymddiswyddo, neu'n colli ei sedd mewn etholiad, bydd y swydd hon yn dod i ben.*

Dyddiad cau: 12pm Dydd Llun 7 Ionawr

Cyfweliadau: Dydd Gwener, 18 Ionawr, Swyddfa'r Etholaeth

Cyswllt: Carl.harris@plaid.cymru / 01269 597 677

Rydym gyflogwyr cyfle cyfartal, ac rydym yn croesawu ceisiadau gan bob person addas, gan gynnwys pobl o grwpiau sydd â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol (hil, rhyw, anabledd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rywiol, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth neu oed).